

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5ed o Fawrth 2020.

- 1 Presennol - Richard Williams (Is-gadeirydd) Gwilym Evans Prenteg, Richard Parry - Bryncir, John Jones, Anwen Humphreys - Garndolbenmaen, Huw Pritchard, Delyth Evans, Manon Jones Evans - Pentrefelin, Amanda N Owen - Golan, Iddon Edwards - Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd
- 2 Ymddiheuriadau - Edward Evans, Megan Lloyd Williams, Clifford Williams, Dylan Pritchard, Dafydd Thomas, Gwenno Emlyn Huws.
- 3 Ddim yn bresennol- neb.
- 4 Datgan buddiant - Eitem 12 Rhoddion Ariannol (6/2/20) - Amanda N Owen.
- 5 Cywirdeb y cyn-gofnodion - 6/2/20 Huw Pritchard yn datgan eu cywirdeb a Richard Parry yn eilio.
- 6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Derbyniwyd ateb gan Wasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd ynglŷn â -

Cerrig ar y lôn yn ardal Mynydd Glas Garndolbenmaen - bydd hwn yn cael sylw cyn gynted â phosib;

Ardal Y Wern, Pentrefelin - peiriant glanhau'r stryd yn gweithio yn oriau mân y bore. Cytunwyd nad oedd hyn yn dderbyniol a chafwyd sicrwydd na fydd yn digwydd eto

Materion Priffyrdd Chwefror 2020

A497 Ochr Criccieth i arwydd 30 mya Pentrefelin - disgwyl ateb.

Gwasanaeth Cludiant Ysbyty Alltwen - disgwyl ateb gan Gyfeillion yr ysbyty.

Materion Priffyrdd Ionawr 2020

Dŵr yn cronni - safleoedd dan sylw wedi eu cynnwys ar raglen waith y criw ymatebol.

Lôn Treflys a Prenteg - wedi ei gyfeirio ymlaen i'r Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol.

Cwmystradllyn - erydu ar lôn Cwmystradllyn i Prenteg. Nid oes unrhyw ddatblygiad wedi digwydd. Loriau yn gwrthod defnyddio'r lôn i gludo nwyddau. Clerc i ofyn i'r Adran Priffyrdd am gyfarfod safle brys gyda Chynghorwyr Golan a'r tirfeddiannwr.

Capel Isaf - Noddfa, Garndolbenmaen - nid yw cyflwr presennol y terfynau yn cyrraedd y maen brawf angenrheidiol i gyfiawnhau ymarfer pwerau dewisol cyflwyno rhybuddion torri gwrychoedd. Bydd y sefyllfa yn cael ei adolygu.

7 Mynwentydd

Mynwent Bethel - yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Eiddo, penderfynwyd derbyn yr argymhellion ynglŷn â thrwsio drysau'r siediau. Clerc i gysylltu gyda seiri coed i gael prisiau am wneud y gwaith.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Derbyniwyd gohebiaeth gan yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd yn hysbysu'r Cyngor y bydd yr ad-daliad am dorri llwybrau cyhoeddus ar gael am y flwyddyn 2020 - 21.

9 Adroddiad Pentrefi

Llochesi Bysus - yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Eiddo, penderfynwyd cael pris am lanhau'r llochesi yng Ngarndolbenmaen, Pentrefelin, Golan a Bryncir.

Garndolbenmaen

Angen glanhau'r strydoedd.

Tai Bro Gwgan - Clerc i gysylltu gyda Cynefin i holi beth sy'n digwydd gyda phaentio'r tai.

Pentrefelin - Dim golau stryd ar y pafin ar ôl mynd heibio Plas Gwyn i gyfeiriad Criccieth at Fynydd Du. Hefyd angen glanhau'r pafin.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Gwilym Evans y cyfarfod.

Treflys - gwastraff mewn cilfach barcio wrth Bryn Derwen. Hyn wedi digwydd mwy nag unwaith.

E-bost gan DE 6/3/20 - twll mawr yn y lôn rhwng Tyddyn Engan a safle'r hen giosg BT. Ychwanegwyd at y rhestr.

Prenteg - Mwsog ar y llwybr o'r blwch postio i'r lôn fawr.

Llifogydd diweddar rhwng Prenteg a Garreg - hysbysfwrdd ddim yn weithredol. Holi os oes modd i'w gael i ddod ymlaen yn awtomatig.

Ail-gylchu - angen mwy o wybodaeth ynglŷn â'r math o blastig mae'n bosib ail-gylchu.

Arwyddion ail-gyfeirio traffig - yn ystod gwaith priffyrdd diweddar, roedd yr arwyddion a osodwyd ynglŷn â'r cyfeiriad i ddilyn yn gamarweiniol. Holi pa ganllawiau sy'n cael eu rhoi i'r contractwyr ac ydy Cyngor Gwynedd yn arolygu'r gwaith o osod arwyddion.

Bryncir

Er gwybodaeth - mae'r diffibriliwr wedi cael ei osod.

Penmorfa

Wal tu allan i dŷ yn y pentref wedi dymchwel a'r cerrig wedi eu gadael ar y pafin.

Clerc i gysylltu gyda'r adrannau perthnasol o Gyngor Gwynedd a Grŵp Cynefin.

10 Dyddiad a lleoliad y Cyfarfod Blynyddol

Penderfynwyd cynnal y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Garndolbenmaen ar 7fed o Fai. Clerc i gysylltu gydag ysgrifennydd y Neuadd. Os nad yw ar gael, cynhelir y cyfarfod ym Mhentrefelin.

11 Penodi Archwilydd Mewnol

Penderfynwyd adnewyddu'r cytundeb gydag A Hughes-Jones a'u Cwmni.

12 Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Ystyriwyd y penderfyniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Penderfyniad 42: Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau. Mae'r taliad yn orfodol ar gyfer pob aelod oni bai iddynt hysbysu'r swyddog priodol yn ysgrifenedig nad ydynt am ei gymryd. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dderbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 43: Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrŵp A sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau. (Ddim yn berthnasol)

Penderfyniad 44: Gall cynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau B neu C wneud taliad blynyddol o hyd at £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau. Penderfynu peidio mabwysiadu'r penderfyniad.

Penderfyniad 45: Gall cynghorau tref a chymuned dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. Derbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 46: Lwfans ar gyfer arhosiad dros nos. Derbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 47: Digolledu am golled ariannol, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd. Derbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 48: Ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dderbyn y penderfyniad.

Penderfyniad 49: Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad i faer neu gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawllir y rhain. Penderfynu peidio mabwysiadu'r penderfyniad.

Penderfyniad 50: Gall cyngorau tref a chymuned ddarparu taliad i ddirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500. Penderfynu peidio mabwysiadu'r penderfyniad.

Penderfyniad 51: Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw yr Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu Aelod Gweithrediaeth) gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth ac ad-daliadau o gostau gofal. (Ddim yn berthnasol).

Bydd manylion unrhyw daliadau yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol.

13 Gohebiaeth

Llythyrau gan Cyngor Gwynedd - Ad-daliad am gynnal llwybrau cyhoeddus. Gwasanaeth Economi a Chymuned - Brexit Cyngor i drigolion a busnesau.

Gohebiaeth ychwanegol

- a Cadwch Cymru'n Daclus - Cyflawni Lleoedd Leol ar gyfer natur mewn cymunedau ledled Cymru - penderfynwyd gyrru am becyn ar gyfer Cae Chwarae Penmorfa.
- b Unllais Cymru - Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol (26/3/20) - gohiriwyd.
- c Llythyrau diolch am roddion ariannol - Neuadd Garndolbenmaen, Canolfan Golan, Eisteddfod Garndolbenmaen, Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog, Cylch Meithrin Garndolbenmaen, Cwmni Drama Llanystumdwy, Age Cymru Gwynedd a Môn.
Ychwanegwyd
- ch Gwahoddiad i gyflwyno sylwadau: Trefniadau Archwilio yn y Dyfodol ar gyfer Cyngorau Cymuned yng Nghymru o 2020 - 2021 ymlaen.
- d Cynhadledd - Adborth Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (Llandudno 31/3/20).
- dd Rali Goffa Merfyn Hughes 14 - 15 Mawrth.

14 Cynllunio

Rhestrau - dim.

Ceisiadau Cynllunio - dim.

15 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: dim.

Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 237.99
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 61.63
Canolfan Golan	=	£ 245.00
Unllais Cymru	=	£ 219.00
<u>Ychwanegwyd</u>		
Gwasg y Bwthyn	=	£ 6.80

Derbyniadau: - Pritchard & Griffiths £380.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,826.79 Cyfredol £8,116.41

16 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Materion Priffyrdd

Gwefan - Cofnodion Chwefror.